Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru
National
Assembly for
Wales

## Grant Ailsefydlu Weinidogol

27 Gorffennaf 2018

**Cais am wybodaeth.**

Diolch am eich cais, a ddaeth i law ar 3 Gorffennaf, pan wnaethoch chi ofyn:

> *O dan y ddeddf rhyddid gwybodaeth, rhestrwch ogydd y grant ailsefydlu a dalwyd i bob gweinidog wrth adael y llywodraeth, ers i Carwyn Jones fod yn brif weinidog, dyddiad y taliad, a'r fformiwla a ddefnyddiwyd i gyfrif y swm. Os y gwnaeth yr unigolyn adael y Cynulliad yr un pryd a gadael y llywodraeth, a wnewch chi ond cynnwys y grant ailsefydlu sy'n ymwneud â'u rôl weinidogol.*

Etholwyd Carwyn Jones yn Brif Weinidog ym mis Rhagfyr 2009.

Gall Gweinidogion adael y Llywodraeth unrhyw adeg ond dim ond pan fyddant yn gadael y Cynulliad fel Aelodau'r Cynulliad y cânt dâl deiliad swydd, a hynny naill ai pan fyddant yn penderfynu peidio â sefyll mewn etholiad neu os na chânt eu hailethol. Ni fyddant, o reidrwydd, yn cael y tâl hwn yr un pryd â'r prif grant adsefydlu; mae'n bosibl y byddant yn ei gael yn ddiweddarach.

Mae'r tabl isod yn dangos y Grant Adsefydlu Deiliad Swydd a dalwyd i Weinidogion (Aelodau Cynulliad) a'r dyddiad y derbyniwyd y taliad hwnnw. Cafodd tâl Aelodau Cynulliad i gyfrifo'n ôl y fformiwla a ddefnyddiwyd ar gyfer Aelodau a etholwyd cyn 2011.

| Enw Aelod | Blwyddyn gadael y Cynulliad | Grant Adsefydlu Deiliaid Swyddi | Dyddiad derbyn taliad Deiliad Swydd |
|---|---|---|---|
| Jane Davidson | 2011 | £10,487.50 | 31 Mai 2011 |
| Alun Ffred Jones | 2016 | £10,487 | 31 Mai 2016 |

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Bae Caerdydd
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn/Tel: 0300 200 6544
E-bost/Email: MynediadAtWybodaeth@Cynulliad.cymru
Assembly-Accesstoinformation@assembly.wales

**Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Jocelyn Davies | 2016 | £6,596 | 29 Ebrill 2016 |
| Edwina Hart | 2016 | £10,487 | 31 Mai 2016 |
| Huw Lewis | 2016 | £10,487 | 31 Mai 2016 |
| Jeff Cuthbert | 2016 | £10,487 | 29 Ebrill 2018 |
| Gwenda Thomas | 2016 | £6,596 | 29 Ebrill 2018 |
| Leighton Andrews | 2016 | £10,487 | 31 Mai 2016 |

Mewn ymateb a gyhoeddwyd yn ein Cofnod datgelu (dyddiedig 24 Mehefin 2016) rydym wedi rhyddhau gwybodaeth eisoes am y fformiwla a ddefnyddiwyd i gyfrifo'r swm. Gan fod y wybodaeth hon eisoes wedi'i chyhoeddi, mae'r rhan hon o'ch cais yn ddarostyngedig i adran 21 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (FOIA) sy'n eithrio gwybodaeth sydd eisoes yn weddol hawdd dod o hyd iddi drwy ddulliau eraill e.e. eisoes wedi'i chyhoeddi ar ein gwefan.

Mae'ch cais wedi'i ystyried yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth. Mae'r cod wedi'i gyhoeddi ar ein gwefan yn www.cynulliadcymru.org/cy/abthome/about_us-commission_assembly_administration/abt-foi/abt-foi-cop-pub.htm

Rhowch wybod imi os oes gennych unrhyw ymholiadau ynghylch yr ymateb hwn. Os teimlwch fod gennych achos dros gwyno, dilynwch y canllawiau ar ddiwedd y llythyr hwn.

Yn gywir

**Buddug Saer**
**Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

A oes gennych achos dros bryderu neu gwyno am yr ymateb i'ch Cais am Wybodaeth?

Os nad wyf wedi dilyn y Cod yn briodol yn eich barn chi neu os nad ydych yn credu fy mod wedi cadw at y gyfraith berthnasol, gallwch gwyno’n ffurfiol i Brif Weithredwr a Chlerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym Mae Caerdydd. Mae egwyddorion trefn gwyno'r Cynulliad yn y Cod Ymarfer ar Gwynion ar gael ar ein gwefan yn http://www.cynulliad.cymru/cy/help/contact-the-assembly/con-complaint/Pages/con-complaint-procedure.aspx . Rhowch wybod imi os hoffech gael copi caled.

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae’r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i’r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gallwch gysylltu â’r Comisiynydd Gwybodaeth drwy'r cyfeiriad a ganlyn:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF